OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 537 (Cy.76)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Cyfyngiad Traffig a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Chwefror 2011* |
| *Yn dod i rym* | *7 Mawrth 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Dolgellau - Man i'r De o Benbedw (yr A494/550) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig neu gyfyngu arno ar ddarnau penodol o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Mawrth 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494/A550 (Cyfnewidfa Queensferry i Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy, Sir y Fflint) (Cyfyngiad Traffig a Gwaharddiadau Traffig Dros Dro) 2011.

**2.** —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 00:01 o'r gloch ar 7 Mawrth 2011 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" *("the length*s of the trunk road") yw'r darnau hynny o gefnffordd yr

A494/A550 rhwng Cyfnewidfa Queensferry a Chyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio neu beri reidio, unrhyw feiciau pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i'r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod gwaharddiadau neu'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Caiff darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd (yr A494) (Ewloe i Queensferry, Clwyd) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 1987**(3)** eu hatal drwy hyn mewn cysylltiad â'r darn o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn ystod y cyfnodau pan fydd y gwaharddiad a bennir yn erthygl 4 yn weithredol.

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig y 25 Chwefror 2011

**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Arbenigol Seilwaith
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26) ac Atodlen 1 iddi.
**(2)** Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Deddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
**(3)** O.S. 1987/2245

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau a Seiclwyr

Y darn hwnnw o'r ffordd ymadael tua'r dwyrain sy'n ymestyn o bwynt lle y mae'n gwyro o'r brif gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd wrth Gyfnewidfa Drome Corner i'r lle y mae'n uno â'r A548 Sealand Road.

Hyd cyfan y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r dwyrain y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyfnewidfa Queensferry i ganolbwynt Cyfnewidfa Parc Diwydiannol Glannau Dyfrdwy.

Y darn hwnnw o'r gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyfnewidfa Drome Corner i bwynt 1000 o fetrau i'r gorllewin o ganolbwynt Cyfnewidfa Queensferry, gan gynnwys y ffyrdd ymuno ac ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewifa Queensferry.